| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **20 Rhagfyr 2012** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog:** | **Yr Arweinydd/<br>Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Swyddog Perfformiad a Chynllunio** |
| **Teitl:** | **Y Cynllun Mawr – Diweddariad ar Berfformiad** |

---

## 1. Ynghylch beth mae'r adroddiad?

1.1 Diben yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ar berfformiad y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a Phartneriaethau wrth ddarparu'r Cynllun Mawr: Rhan I, 2011-14. Mae'r adroddiad yn rhoi 'Adroddiad Cryno o Eithriadau', gyda phenodau manylach ar gyfer pob un o'r wyth o ganlyniadau'r Cynllun Mawr.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

2.1 Cyflwyno gwybodaeth ynghylch darparu'r Cynllun Mawr.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Pwyllgor Archwilio'n ystyried ac yn cyflwyno sylwadau ar gynnwys yr adroddiad ac yn nodi unrhyw feysydd ar gyfer gwella wrth ddarparu'r Cynllun Mawr.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Cynllun Mawr Sir Ddinbych: 2011-14 yw'r cynllun sy'n gyrru gweithio mewn Partneriaeth yn Sir Ddinbych. Y Bwrdd Gwasanaethau Lleol sy'n gyfrifol am y Cynllun Mawr ac mae'n dal asiantaethau partner (gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, y trydydd sector, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cyngor Sir Ddinbych[1]) yn gyfrifol am weithredu'r cynlluniau gweithredu i ddarparu'r Cynllun Mawr a'i wyth canlyniad.

4.2 Mae'r Cynllun Mawr yn cael ei ddarparu ar y cyd gan yr asiantaethau partner. Bydd gwerth y gwaith mewn partneriaeth wrth ddarparu'r Cynllun Mawr yn cael ei archwilio'n fanylach yn flynyddol ac mewn adroddiadau clo (diwedd cynllun).

4.3 Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriadau ar gyfer pob canlyniad, ac yn galluogi Aelodau i ganolbwyntio ar feysydd o wendid. Mae'r adroddiad

[1] Dylid cofio nad yw'r rhestr hon yn gyflawn.

hefyd yn cynnwys gwybodaeth ar yr hyn sy'n mynd yn dda. Mae gwybodaeth fanylach ar bob canlyniad ar gael gan y Tîm Partneriaethau a Chymunedau.

4.4 Mae Partneriaid erbyn hyn hanner ffordd drwy'r amserlen ddarparu, ac, o gofio hynny, mae gofyn i bartneriaid ganolbwyntio a blaenoriaethu rhai elfennau er mwyn gwella'r canlyniadau i bobl yn Sir Ddinbych. Er enghraifft, ymestyn cefnogaeth i bobl hŷn ledled y sir, talu sylw i'r heriau sy'n wynebu Canol Tref y Rhyl; gwella'r gefnogaeth i ofalwyr ifanc, rhwystro hunanladdiad a hunan niweidio; amddiffyn pobl fregus rhag tân ac adolygu cyfraniad partneriaid i'r Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymdeithasol (Canlyniad 8). Bwriedir dechrau ar nifer fechan iawn o elfennau o waith yn 2013.

4.5 Nid yw dangosyddion llwyddiant ar gyfer ardaloedd gwledig ac iechyd meddwl yn gadarn, sy'n golygu fod llai o ddealltwriaeth o'r gwahaniaeth y mae'r Cynllun Mawr yn ei wneud. Bydd y dangosyddion hyn yn cael eu hadolygu.

4.6 Nid yw rhai o'r trefniadau darparu'n arwain at y canlyniadau a ddisgwylir, ac er nad yw hyn wedi effeithio ar ddarpariaeth, mae adrodd perfformiad yn dioddef mewn rhai achosion, yn enwedig Canlyniad 1. Bydd hyn yn cael ei ddatrys wrth gryfhau strwythurau strategol y bartneriaeth (gan gynnwys Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc).

4.7 Mae'n rhaid i Bartneriaethau bwysleisio pwysigrwydd casglu data'n gywir ac yn brydlon, a pharatoi adroddiadau o ansawdd da i swyddogion arweiniol, er mwyn gallu rheoli perfformiad a chymryd penderfyniadau ynghylch partneriaethau'n effeithiol. Sefydlwyd trefniadau ar gyfer casglu tystiolaeth ynghylch effeithiau ein hymyriadau ar fywydau pobl ac mae gwaith ar y gweill i fapio adnoddau'r Bartneriaeth. Bydd gwybodaeth ynghylch hyn yn cael ei gynnwys yn yr adroddiadau blynyddol / diwedd y cynllun.

4.8 Yn gyffredinol, does yna ddim rhwystrau mawr i ddarparu'r Cynllun Mawr ac rydyn ni'n hyderus y bydd y Cynllun yn cael ei ddarparu.

**5. Sut y bydd y penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cyd-fynd â'r Cynllun Mawr, mae yna gysylltiad rhwng saith blaenoriaeth y cynllun corfforaethol ac wyth canlyniad y Cynllun Mawr.

**6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Y Bwrdd Gwasanaethau Lleol sy'n gyfrifol am y Cynllun Mawr ac mae nifer o fyrddau'r bartneriaeth yn gyfrifol am ei ddarparu. Mae'r sefydliadau partner yn ariannu'r Cynllun Mawr yn Sir Ddinbych (y sector cyhoeddus) o fewn y cyllidebau presennol / craidd a thrwy gomisiynu call.

**7. Pa ymgynghori a wnaed?**

7.1 Adroddir ar berfformiad yn rheolaidd ac mae’n cael ei reoli gan bartneriaid a byrddau’r bartneriaeth.

7.2 Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn rheoli ymgynghoriad eang ar newidiadau yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ar hyn o bryd. Bydd y rhain yn effeithio ar y Cynllun Mawr, yn enwedig o ran modelau cydweithio, trefnu gwasanaethau a gofal iechyd yn lleol.

7.3 Cafodd y Cynllun Mawr ei ddatblygu ar ôl cysylltu ac ymgynghori’n fanwl ac yn gadarn, gan gynnwys datblygu Asesiad Effeithiau Cydraddoldeb.

## 8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

8.1 Er nad oes yna oblygiadau ariannol uniongyrchol i’r adroddiad hwn, mae’r Cynllun Mawr yn ddogfen strategol bwysig sy’n sail i ddarparu gwasanaethau o safon mewn sawl ardal. Gallai unrhyw broblem ynghylch perfformiad yn y dyfodol effeithio ar gyllid y Cyngor.

## 9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?

9.1 Mae cyfarwyddid gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Ddinbych i resymoli strwythurau’r bartneriaeth wedi arwain at adolygu a chwtogi ar nifer grwpiau’r bartneriaeth, a newid y prosesau rheoli.

## 10. Yr Hawl i Benderfynu

10.1 Erthyglau 6.1 a 6.3.4 o Gyfansoddiad y Cyngor.